**Rhif:** WG50156

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Addasu'r SASW

# (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru)

Gorffennaf 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW) yn pennu'r gofynion y mae rhaid eu bodloni er mwyn i fframweithiau prentisiaethau Cymreig cydnabyddedig gael eu cyhoeddi o dan adran 19(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009").

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad i geisio adborth ar sut i addasu'r SASW i wella ansawdd y gwaith o ddatblygu a darparu fframwaith prentisiaethau er mwyn diwallu anghenion prentisiaid a chyflogwyr yng Nghymru yn well.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i gyflwyno eu safbwyntiau.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: UnedPrentisiaeth-AAaS@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen at y ddogfen ymgynghori: hyperlink

## Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Y broses ymgynghori
3. Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad
4. Y camau nesaf
5. Rhestr o'r ymatebwyr

## Cyflwyniad

Mae prentisiaethau'n ymyriad allweddol wrth ddatblygu'r gweithlu ac yn hollbwysig i ysgogi twf economaidd. Mae prentisiaethau'n helpu newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur ac yn rhoi cymorth i uwchsgilio ac ailsgilio gweithwyr sydd eisoes yn y gweithle. Maent yn rhan hanfodol o Warant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc o dan 25 oed yng Nghymru i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig.

Mae'r pandemig, yr argyfwng costau byw, diwedd symud rhydd yn y farchnad lafur ynghyd â digideiddio a newid hinsawdd yn cael effaith fawr ar ein heconomi a chyflogaeth. Mae gan brentisiaethau rôl ganolog o ran cefnogi adferiad a hyrwyddo twf a hefyd o ran ymateb i heriau fel newid demograffig, arloesi digidol a dulliau cynaliadwy neu sero net.

Yng Nghymru, bydd prentis yn dilyn Fframwaith Prentisiaeth Gymreig cymeradwy. Rhaid i'r fframweithiau hyn ddiwallu anghenion yr economi, diwydiant neu sector sgiliau drwy sicrhau bod gan brentisiaid yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymwysterau perthnasol i alluogi a chefnogi eu dewisiadau gyrfaol. Mae fframweithiau ar gael mewn 23 o sectorau ac ym mhob un ohonynt ceir amrywiaeth o opsiynau neu lwybrau yn seiliedig ar alwedigaethau penodol neu rolau swydd.

Fel y nodwyd yn nhrosolwg yr ymgynghoriad, mae Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru ("SASW") yn amlinellu'r gofynion sylfaenol i’w cynnwys mewn fframwaith prentisiaeth Gymreig cydnabyddedig. Mae cydymffurfio â'r SASW yn ofyniad statudol yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

Rhaid i Awdurdodau Cyhoeddi Cymru roi sylw i’r canllawiau hyn wrth wneud penderfyniad ynghylch a yw fframwaith yn cydymffurfio â’r SASW.

## Y Broses Ymgynghori

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o chwe wythnos rhwng 25 Ebrill a 6 Mehefin 2024.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o blaid yr addasiadau arfaethedig a fydd yn galluogi'r SASW i fod yn fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion newidiol diwydiant a chyflogwyr mewn amgylchedd sgiliau sy'n newid yn gyflym. Cynigiwyd pedwar addasiad. Ar gyfer pob un, rhoddwyd esboniad byr i osod y cyd-destun a darparu rhesymeg er mwyn galluogi ymatebwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu sylwadau ar y pedwar cynnig ac roedd modd iddynt rannu'r rhain ar ffurf testun rhydd.

Cafwyd ymatebion gan 34 o sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys cyrff amrywiol sectorau, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau addysgol ledled Cymru. Mae'n bwysig nodi nad atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn.

# Crynodeb o'r Ymatebion

## Cynnig 1

**Caniatáu cymwysterau procsi ychwanegol a chymwysterau procsi newydd ar gyfer Llythrennedd Digidol fel dewis amgen cydnabyddedig yn lle Sgiliau Hanfodol fel y manylir arnynt o dan bob lefel fframwaith prentisiaeth. Rhoddwyd rhestr wedi'i diweddaru i'r ymatebwyr yn Atodiad 1.**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 31 |
| Anghytuno | 0 |
| Dim ymateb | 3 |

O'r 31 o ymatebwyr a oedd o blaid yr addasiad hwn, roedd sawl thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Yr angen am eglurder pellach mewn rhai meysydd, gan gynnwys awgrymiadau o ran aralleirio, er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n cyfeirio at restr y cymwysterau procsi yn eu deall a'u cymhwyso yn well.
- Awgrymiadau ynghylch cymwysterau procsi ychwanegol y gellid eu cynnwys - er enghraifft, nodwyd pryderon nad oes cymwysterau procsi tramor ac y dylid sicrhau bod mwy o gydnabyddiaeth i sgiliau/gwybodaeth berthnasol sy'n benodol i ddiwydiant.

## Cynnig 2

**Gellir gwneud addasiadau rhesymol i'r gofynion sylfaenol yn ymwneud â chyfathrebu, cymhwyso rhif a phrentisiaethau sylfaen llythrennedd digidol (Lefel 2) a Phrentisiaethau (Lefel 3). Rhoddwyd rhestr o'r addasiadau a fwriedir i'r ymatebwyr yn Atodiad 2.**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 29 |
| Anghytuno | 0 |
| Aneglur | 2 |
| Dim ymateb | 3 |

Fel y nodir, roedd atebion gan 2 ymatebydd yn aneglur, gan felly ei gwneud hi'n anodd penderfynu a oeddent yn cytuno ai peidio. O'r 29 o ymatebwyr eraill, roedd pob un yn cytuno mewn egwyddor ond nodwyd sawl pryder. Gellir grwpio'r rhain yn fras yn bryderon ynghylch eglurder a phryderon ynghylch ystyr 'cymhwysedd'.

Roedd y pryderon o ran eglurder yn cynnwys:

- A fyddai'r addasiadau arfaethedig yn cynnwys amserlen hirach i alluogi dysgwyr i gwblhau eu prentisiaeth
- Canllawiau pellach o ran beth yn union sy'n cyfrif fel asesiad ar sail tystiolaeth
- Canllawiau pellach ar sut i wneud cais am addasiadau, disgwyliadau ar gyflogwyr i wneud y rhain a pha amserlenni y gellid eu disgwyl
- Cryfhau geiriad o ran y rhwymedigaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Roedd y pryderon o ran 'cymhwysedd' yn cynnwys:

- Gallu darparwyr hyfforddiant i wneud penderfyniad cadarn ar sail gwybodaeth ynghylch gallu dysgwr i ddod yn gymwys yn sgil addasiadau i Sgiliau Hanfodol.
- Sicrhau'r cydbwysedd rhwng yr angen i beidio â rhoi dysgwyr o dan anfantais â'r angen i beidio â chynnig gormod o gonsesiynau gan felly wanhau cymhwysedd dysgwyr. Y pryder a godwyd oedd y gallai hyn achosi problemau posibl i gyflogwyr a chyrff ardystio.

## Cynnig 3

**Cynnwys adran newydd yn ymwneud â gradd-brentisiaethau a phrentisiaethau proffesiynol (lefelau 6 a 7), a fydd yn dileu'r gofynion o ran sgiliau hanfodol ar gyfer prentisiaethau ar y lefelau hyn**

| | |
|---|---|
| Cytuno | 27 |
| Anghytuno | 5 |
| Dim ymateb | 2 |

Rhannodd un ymatebydd, er nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno'n bendant, sylw yn awgrymu ei fod yn cytuno ar yr amod y gellid cynnig sgiliau hanfodol i ddysgwyr gradd-brentisiaethau a phrentisiaethau proffesiynol fel opsiwn dewisol, pe byddent yn dymuno gwneud hynny. Ar y sail hon, dehonglwyd hyn fel bod yr ymatebydd yn cytuno.

O'r 27 o ymatebwyr a oedd yn cytuno, roedd sawl un o'r farn y dylai'r addasiad fod yn gymwys hefyd i Brentisiaethau Uwch. Y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd parch cydradd ac y byddai'n annog gwell dilyniant i flwyddyn 2 neu 3 o radd-brentisiaethau.

O'r 5 ymatebydd a oedd yn anghytuno, y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd oedd y dylid cynnwys sgiliau hanfodol ar gyfer pob dysgwr, ni waeth beth fo'r lefel a gyflawnir.

## Cynnig 4

Er mwyn i fframweithiau prentisiaethau gydymffurfio ag isafswm wedi'i ddiweddaru, fel yr amlinellir yng ngofynion y SASW wedi'u diweddaru, rhaid cynyddu isafswm y credydau ar gyfer cymwysterau mewn fframwaith, hynny yw, rhaid i fframweithiau gynnwys o leiaf 38 o gredydau bellach (ac eithrio credydau Sgiliau Hanfodol).

| | |
|---|---|
| Cytuno | 24 |
| Anghytuno | 5 |
| Dim ymateb | 3 |
| Methu ymateb | 2 |

Roedd dau ymatebydd o'r farn na allent roi ateb, gan nodi bod angen rhagor o eglurder ynghylch pa fframweithiau a fyddai'n cael eu heffeithio.

O'r 24 o ymatebwyr a oedd yn cytuno, nododd nifer bach y fframweithiau a'r lefelau yr oeddent o'r farn y dylai'r addasiad fod yn gymwys iddynt. Cafwyd sylw hefyd ynghylch yr effaith bosibl ar ddysgwyr, sefydliadau addysgol a diwydiant ac a allai amserlenni prentisiaethau gael eu heffeithio.

Er yn cefnogi'r addasiad yn eang, dylid nodi bod Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a Chyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru wedi rhannu pryder ynghylch y canlyniadau anfwriadol i gymwysterau cyfredol y fframwaith presennol. Gwnaethant dynnu sylw at y Diploma Lefel 2 a'r Diploma Lefel 3 diweddaraf mewn Gwaith Chwarae a fyddai'n dod yn anghymwys pe bai'r lleiafswm o 19 o gredydau gwybodaeth a 19 o gredydau cymhwysedd yn cael eu cymhwyso. Gwnaethant gynnig cadw 38 o gredydau ond ni wnaethant nodi'r gyfran o ran sut y byddai'r rhain yn cael eu cynnwys.

O'r 5 ymatebydd a oedd yn anghytuno, roedd eu pryderon fel a ganlyn:

- Tynnodd Sgiliau Ynni a Chyfleustodau sylw at fframwaith presennol a fyddai'n dod yn anghymwys, sef Gweithrediadau Adeiladu Rhwydweithiau Nwy Lefel 2 (Haen Gwasanaeth), sydd â dim ond un cymhwyster o 37 o gredydau ar hyn o bryd.
- Mae'n bosibl na fydd sectorau llai megis coedwigaeth yn gallu bodloni unrhyw oblygiadau posibl o ran costau a byddai hyn felly yn cael effaith andwyol ar y prentisiaethau y gallent eu cynnig. Nododd ymatebydd arall oblygiadau o ran costau.
- Ni ddylai fod 'maint cyffredin' i gymwysterau ar draws holl lefelau fframweithiau. Yn hytrach, dylai maint y cymwysterau/fframwaith adlewyrchu'r elfennau ymarferol sydd eu hangen i ddatblygu sgiliau.
- Dywedodd darparwr hyfforddiant fod eu cymwysterau, sy'n 37 o gredydau ar hyn o bryd, wedi'u newid yn 2023 ac roedd yn teimlo eu bod eisoes, yn eu sector gweithgynhyrchu bwyd a diod, yn cynnig profiadau dysgu sy'n darparu'r

wybodaeth a'r ddealltwriaeth dechnegol i gynnwys cysyniadau damcaniaethol drwy'r cymwysterau.

## Y camau nesaf

Bydd yr adran hon yn mynd i'r afael â sylwadau'r ymatebwyr ac yn amlinellu cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

**Cynnig 1**:

Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd ar gyfer cynnig 1, er ein bod yn gwerthfawrogi bod ymatebwyr wedi tynnu sylw at gymwysterau procsi posibl ar gyfer meysydd pwnc eraill, mae ein cynnig wedi'i gyfyngu i ganolbwyntio ar y rhai sy'n ymwneud â llythrennedd digidol.

Rydym yn cydnabod, yn sgil natur gyflym y sector TG/digidol, y gallai fod cymwysterau ychwanegol y gallai fod angen eu hychwanegu at y rhestr cymwysterau procsi. Byddwn yn parhau i fonitro'r rhestr a'i diweddaru i sicrhau nad yw dysgwyr o dan anfantais. Yn ogystal â hyn, byddwn yn annog y sector i ymgyfarwyddo o hyd â datblygiadau parhaus ac i arfer disgresiwn lle gellir cymhwyso tystiolaeth newydd yn rhesymol, a hynny wrth ystyried dilysrwydd cymhwyster procsi.

**Cynnig 2:**

Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd ar gyfer cynnig 2, nodwn fod rhai meysydd lle y mae ymatebwyr wedi gofyn am eglurhad a gwybodaeth bellach ynghylch cymwyseddau.

- Amserlenni: Mae hyblygrwydd eisoes yn yr amserlen a ganiateir i gwblhau prentisiaeth. Disgwyliwn y byddai cyflogwyr a darparwyr yn parhau i arfer dull gweithredu hyblyg i alluogi'r gwaith o ymgorffori addasiadau rhesymol er mwyn caniatáu i ddysgwyr gwblhau eu prentisiaethau yn llwyddiannus.
- Tystiolaeth a Chymwyseddau: Diffinnir cymwyseddau galwedigaethol yn y SASW fel y cymwyseddau sy'n ofynnol i gyflawni'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud â hwy ar y lefel sy'n ofynnol yn y fframwaith. Disgwyliwn, wrth gyflawni'r rhain, y bydd darparwyr yn gweithio gyda chyflogwyr a dysgwyr i'w harwain a'u cynghori ar bob agwedd sy'n ymwneud â chyflawni'r cymwyseddau hyn, gan gynnwys ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen. Mae darparwyr yn gyfrifol am, a rhaid iddynt ymrwymo i ddefnyddio gweithwyr proffesiynol cymwysedig i asesu anghenion a gallu dysgwyr unigol a sut y gellir tystiolaethu eu cymwyseddau orau.
- Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cadernid y dystiolaeth a ddarperir i gynnal y safonau sy'n ofynnol gan gyflogwyr a chyrff ardystio.

Hoffem ddiolch i Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru am y cyngor a roddwyd o ran Canllawiau'r SASW. Bwriad y rhain yw darparu cymorth ychwanegol i ddefnyddwyr a byddant yn cynnwys adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i diweddaru a fydd yn ystyried tri nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**Cynnig 3:**

Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd ar gyfer cynnig 3, gallwn gadarnhau mai ein bwriad yw gwerthuso effaith dileu'r gofyniad Sgiliau Hanfodol o radd-brentisiaethau. Byddwn wedyn yn ailasesu'r sefyllfa o ran Prentisiaethau Uwch ac a fyddai'n briodol estyn dileu'r gofyniad Sgiliau Hanfodol i gynnwys y rhain hefyd.

Nodwn fod lleiafrif o'r ymatebwyr o'r farn y dylid cadw Sgiliau Hanfodol ar gyfer pob dysgwr. Fodd bynnag, ein rhesymeg dros eu dileu yw bod gan brifysgolion eu gofynion mynediad eu hunain i sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymgymryd â radd-brentisiaeth yn llwyddiannus.

**Cynnig 4**

Mewn ymateb i'r adborth a gafwyd ar gyfer cynnig 4, hoffem sicrhau ymatebwyr na fyddem yn disgwyl i werth credydau newid ar gyfer fframweithiau a llwybrau sy'n bodoli eisoes nes bod adolygiad o'r sector perthnasol wedi'i gynnal. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr sydd wrthi'n ymgymryd â'u prentisiaethau barhau â'r fframwaith presennol o ran gwerth credydau.

Rydym wrthi'n cynnal cyfres o adolygiadau ynghylch llwybrau'r sector gan ymgynghori â darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr ac arbenigwyr yn y sector. Bydd y broses hon yn ein galluogi i ganfod unrhyw bryderon ac ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â hwy. Y tri maes cyntaf i'w hystyried yw'r llwybrau Creadigol, y Blynyddoedd Cynnar a Gweithrediadau Peirianneg Ymarferol.

Hoffem bwysleisio mai ein nod yw gwella safonau i ddysgwyr a chyflogwyr. Hoffem sicrhau bod ein prentisiaid yn cael rhaglen gyflawn a fydd yn golygu eu bod yn datblygu i fod yn unigolion hyderus, cymwys a galluog sydd â sgiliau cystadleuol a throsglwyddadwy.

**Rhestr o'r Ymatebwyr**

Agored Cymru
ALS Training
Anwyl Construction
Asda
Barratt Developments
Bart Anderson
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cambria
Canolfan MOT Manselton
CITB Cymru
Clybiau Plant Cymru Kids Clubs
Colegau Cymru
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Chwarae Cymru
Estyn
Ffederasiwn Sgiliau a Safonau'r Sector Diwydiant
Fforwm Sgiliau Coedwigaeth Cymru a Lloegr
Gofal Cymdeithasol Cymru
Grŵp Colegau NPTC (Castell-nedd, Port Talbot a Choleg Powys)
Itec - Sgiliau a Chyflogaeth
Pobl
Prifysgol De Cymru
Progression Training (cafwyd dau ymateb ar wahân gan ddau unigolyn)
Sgiliau Ynni a Chyfleustodau
Tai Clwydalyn
Tony Leahy
Tony Sawyer
Tristan Funnell
Undeb Prifysgolion a Cholegau
Yr Awdurdod Sicrwydd Inswleiddio

Noder: Yn ogystal ag un ymatebydd a oedd yn dymuno aros yn ddienw.